


# Defnyddio Patrymau



## Gwyliau Gwahanol

Ydych chi'n hoffi gwersylla?

Ydw. Mae gwersylla'n hwyl.

Dw i wrth fy modd yn gwersylla.

Gwersylla?  
Gwych!  
Ffantastig!  
Anhygoell!

Nac ydw.  
Mae gwersylla'n ddiflas iawn.

Dw i ddim yn hoffi cysgu mewn pabell.  
Mae'n oer ac mae pryfed ar y llawr.

**Wel beth am hyn?**



**Beth:** gwyliau mewn iwrt

**Ble:** Cymru

**Beth yn union:** [pabell](#) fawr, siâp [crwn](#)  
[carpedi](#) hyfryd ar y [llawr](#)  
gwely mawr  
[moethus](#) iawn, iawn

**O ble mae iwrts yn dod:** Mae pobl Mongolia yn byw mewn iwrts.  
Mae'r bobl yn cerdded [o le i le](#) gyda'r anifeiliaid ac maen nhw'n cario'u cartrefi - yr iwrts - gyda nhw.  
Mae'r iwrts yn [gynnes](#) yn y gaeaf achos mae stôf ynddyn nhw.  
Dydyn nhw ddim yn rhy boeth yn yr haf.



Hoffech chi gael gwyliau mewn iwrt?

### Geirfa

gwersylla    camping

anhygoel    awesome

pabell    tent

llawr    floor

pryfed    insects


crwn    round

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

moethus      luxurious

o le i le      from place to place

cynnes      warm



## Hobïau diddorol

Mae rhai pobl yn mwynhau hobïau "gwahanol".

Mae rhai pobl yn casglu pethau "gwahanol" fel:



papurau siocled neu ...



... bagiau chwydu

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU



Mae rhai pobl yn Wisconsin  
yn gwneud sŵn buwch ...



... ac mae rhai pobl yn  
Taiwan yn rhoi tatŵs ar y  
car ...

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU




a beth am rasio ar  
doiled ... a ...



... chwarae polo  
ar segway?

Ond dyma hobi  
diddorol arall:  
mae pobl o bob  
oed ar draws y  
byd yn  
mwynhau'r hobi  
yma.

Beth ydy'r hobi?



'Nôl

Nesaf

# RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

Tegan yn teithio (toyvoyaging) ydy'r hobi.

## Sut mae'n gweithio?

- Rhaid dewis tedi neu degan arall.
- Rhaid mynd ar-lein ([toyvoyagers.com](http://toyvoyagers.com)) a gofyn i berson mewn gwlad arall roi gwyliau i'r tedi.
- Rhaid gofyn i'r person arall fynd â'r tedi i leoedd diddorol.
- Bydd y person arall yn ysgrifennu dyddiadur ac yn rhoi lluniau'ch tedi chi ar y we.


llun gan [brent watkins](#) / [CC GAN](#)

Geirfa	
casglu	(to) collect
chwydu	(to) be sick, vomit
buwch	cow
o bob oed	of all ages
ar draws y byd	all over the world
tegan	toy
dewis	(to) choose
gwlad	country
mynd â	(to) take
dyddiadur	diary

## Edrych ymlaen

**Darren**

Dw i'n [aros](#) gartre dros yr haf. Dw i'n mynd i gyfarfod â fy ffrindiau a dw i'n mynd i gadw'n heini. Dw i'n mynd i redeg bob bore a nofio bob prynhawn - mae bargin yn y pwll nofio!

**Ali**

Byddai i'n [gwersylla](#) gyda'r teulu ym mis Awst. Mae pabell gyda ni a byddwn ni'n mynd i Aberaeron.

**Erin**

Rydyn ni'n mynd i [wersylla](#) hefyd. Mae gennyn ni babell fach a byddwn ni'n mynd i Ffrainc. [Gobeithio](#) bydd y tywydd yn braf!

**Cristina**

Dw i ddim yn mynd ar wyliau ond mae ffrind yn dod i [aros](#) efo fi ym mis Awst. Byddwn ni'n mynd i'r cinema ac i [fowlia deg](#).

**Matt**

Dw i ddim yn mynd ar wyliau [chwaith](#) ond dw i'n [edrych ymlaen](#) at y gwyliau ysgol achos dw i wedi blino rŵan. Dw i'n edrych ymlaen at godi'n [hwyr](#), cael brecwast hwyr, gwneud [dim byd](#) ac [ymlacio](#)!

**Yoko**

Gwyliau [diog](#) i fi hefyd! Dw i'n [edrych ymlaen](#) at fynd mas gyda ffrindiau.

Edrychwrch

GOGLEDD	=	DE
<b>aros adre</b>	(to) stay at home	<b>aros gartre</b>
<b>cyfarfod â</b>	(to) meet	<b>cwrdd â</b>
<b>Mae gennyn ni ...</b>	We've got	<b>Mae ... gyda ni</b>
<b>efo</b>	with	<b>gyda</b>
<b>rŵan</b>	now	<b>nawr</b>
<b>allan</b>	out	<b>mas</b>

Geirfa

edrych ymlaen (to) look forward

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

gwersylla	camping
gobeithio	(I/we) hope
aros	(to) stay
bowlio deg	ten pin bowling
chwaith	either
hwyr	late
dim byd	nothing
ymlacio	(to) relax
diog	lazy

## Dewch gyda fi ...

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm, ond cyn gwyllo, dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa	
Tuduraidd	Tudor
ffrog	dress
hir	long
gemau	jewellery
byd	world
o'r blaen	before
y Tuduriaid	the Tudors
cwrw	beer

brwydr	battle
ymladd	fighting
ceffylau	horses

### Sgript

**Aled:** Esgusodwch fi.

**Merch:** Ie.

**Aled:** Dw i'n hoffi'r dillad.

**Merch:** Diolch. Dw i'n hoffi'r dillad hefyd. Dw i'n hoffi'r teits coch. Maen nhw'n hyfryd.

**Aled:** O ... diolch yn fawr. Ble ydych chi'n mynd?

**Merch:** Dw i'n mynd i'r Dydd Tuduraidd.

**Aled:** A fi! Dw i'n mynd i'r Dydd Tuduraidd hefyd. Dyna pam dw i'n gwisgo teits!

**Merch:** Wrth gwrs. Dyna pam dw i'n gwisgo ffrog hir a llawer o gema. Dw i'n mynd i'r Dydd Tuduraidd yn y castell.

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

**Aled:** Wel, rydych chi'n edrych yn smart iawn.

**Merch:** Diolch yn fawr. Beth ydy'ch enw chi?

**Aled:** Aled. Beth ydy'ch enw chi?

**Merch:** Erin.

**Aled:** Ble ydych chi'n byw?

**Merch:** Dw i'n byw yn Llanelli.

**Aled:** Wel, wel. Dw i'n byw yn Llanelli hefyd.

**Merch:** O ble ydych chi'n dod?

**Aled:** Dw i'n dod o Lanelli.

**Merch:** Wel, wel. Dw i'n dod o Lanelli hefyd.  
Mae'r byd yn fach.

**Aled:** Mae'r byd yn fach **iawn!** Ydych chi'n hoffi byw yn Llanelli?

**Merch:** Ydw. Mae pwll nofio da iawn yno ac mae'r cinema yn wych.

**Aled:** Pwll nofio ... a cinema. Rydych chi'n hoffi nofio a gwyllo ffilmiau, felly.

**Merch:** Ydw. Beth ydych chi'n hoffi gwneud?

**Aled:** Dw i'n hoffi nofio a gwyllo ffilmiau hefyd – a dw i'n hoffi chwarae pêl-droed ...

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

**Merch:** ... ac rydych chi'n hoffi gwisgo fel dyn [Tuduraidd](#).

**Aled:** Wel ... ydw ... a nac ydw.

**Merch:** "Ydw" a "Nac ydw"?

**Aled:** Dw i'n hoffi'r hanes – ond dw i ddim yn hoffi gwisgo'r teits!

Dw i ddim wedi bod i  
Ddydd [Tuduraidd o'r blaen](#).

**Merch:** O, mae Dydd [Tuduraidd](#) yn hwyl – yn **llawer** o hwyl!

**Aled:** Beth sy'n **digwydd** ar Ddydd [Tuduraidd](#)?

**Merch:** Edrychwch.

**Merch:** Mae pawb yn gwisgo dillad [Tuduraidd](#) – fel chi a fi.

**Aled:** Smart iawn!

**Merch:** Mae pawb yn byw fel [y Tuduriaid](#) am ddiwrnod.

**Aled:** Byw fel [y Tuduriaid](#)?

**Merch:** Wel, mae rhai merched yn helpu i baratoi bwyd.

**Aled:** Pa fath o fwyd?

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

**Merch:** Cig ... a llysiau ... a bara ... a ... [cwrw](#).

**Aled:** Blasus iawn.

**Merch:** Weithiau mae [brwydr](#).

**Aled:** [Brwydr](#)?

**Merch:** [Ymladd](#). Edrychhwch.

**Aled:** [Ymladd](#)?!? Dw i ddim eisiau [ymladd](#)!

**Merch:** Dim problem. Ydych chi'n hoffi [ceffylau](#)?

**Aled:** Ydw, dw i'n hoffi [ceffylau](#)'n fawr.

**Merch:** Gwych!

**Aled:** Pam "Gwych!"?

**Merch:** Wel, os ydych chi'n hoffi [ceffylau](#), beth am jowstio?

**Aled:** Jowstio – fi?!

**Merch:** Ie, chi ... dewch.

**Aled:** Ond ...

**Merch:** Bydd e'n hwyl! Dewch gyda fi ...

**Aled:** Ond ...

## Mynd ar wyliau

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Geirfa	
chwilio	(to) search
Dim ots!	Never mind!
bwcio	(to) book
blaendal	deposit
yswiriant	insurance
prynu	(to) buy
talu'n llawn	(to) pay in full

edrych ymlaen (at) (to) look forward (to)

llawer a lot

cynnes warm

aros am (to) wait for

y diwrnod mawr the big day

Mae Carwyn Claude Crawford eisiau mynd ar wyliau.

### Sgript

Aled Beth wyt ti'n wneud?

Carwyn Dw i'n chwilio.

Aled Chwilio?

**Carwyn** [Chwilio](#) am wyliau.

**Aled** O, ble wyt ti eisiau mynd?

**Carwyn** Dw i ddim yn siŵr eto ... dw i'n [chwilio](#) ar y we.

**Aled** O. Wela i di!

**Carwyn** Hwyl!

Dyna ni - dyna ble dw i eisiau mynd.

Beth ydy'r pris? O, diar!

**Carwyn**

O diar! [Dim ots](#), dw i'n mynd i safio!

[Bwcio](#) nawr.

lawn ... iawn ... iawn ... iawn ...

Dyna ni! -

**Carwyn**

O! Rhaid talu [blaendal](#) ... lawn ... lawn. Dyma'r cerdyn banc.

Dyna ni - wedi [bwcio](#) - ac wedi talu [blaendal](#).

[Yswiriant](#) nawr ...

lawn ... iawn ... iawn ... iawn ... iawn ... iawn ... iawn ...  
iawn ...

**Aled** Wyt ti'n dod allan heno?

**Carwyn** Nac ydw. Dim diolch.

**Aled** Ond pam?

**Carwyn** Dw i'n safio arian. Dw i eisiau mynd ar wyliau ym mis Hydref.

**Aled** O iawn.

**Aled** Wyt ti eisiau dod i'r sinema gyda ni?

**Carwyn** Dim diolch. Dw i'n safio arian. Dw i eisiau mynd ar wyliau ym mis Hydref.

**Aled** Wyt ti eisiau dod i Gaerdydd am y penwythnos gyda'r gang?

**Carwyn** Dim diolch. Dw i'n safio arian. Dw i eisiau mynd ar wyliau ym mis Hydref.

**Aled** Beth am fynd i lan y môr ... ac yna mynd allan gyda'r gang?

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

**Carwyn** Lan y môr ... ac allan gyda'r gang ... Na, dim diolch. Dw i'n safio arian achos dw i eisiau mynd ar wyliau ym mis Hydref.

**Carwyn** Beth sy yn y wardrob?  
Rhaid prynu dillad newydd.

**Carwyn** Helo.

**Merch** Helo.

**Carwyn** Dw i eisiau sandalau newydd os gwelwch yn dda.

**Merch** Pa faint?

**Carwyn** Naw.

**Merch** Dewch gyda fi.

**Carwyn** Ble mae'r crysau T os gwelwch yn dda?

**Carwyn** Ble mae'r eli haul os gwelwch yn dda?

lawn, pedair wythnos i fynd.

**Carwyn** O! Rhaid [talu'n llawn](#) am y gwyliau.  
Gwych!  
Dw i'n [edrych ymlaen](#).

**Carwyn** Wel, dw i'n mynd yfory. Rhaid pacio.

**Aled** Beth wyt ti'n wneud?

**Carwyn** Dw i'n pacio.

**Aled** Pacio? Beth wyt ti'n pacio?

**Carwyn** Pants ... sandals ... siorts ... dau grys T, eli haul, brwsh dannedd, past dannedd, sebon, plastrau, tabledi i'r bol achos mae'r bwyd yn sbeislyd ac yn boeth iawn, iawn. Hefyd ... papur tŷ bach, ... a ... plygiau i'r clustiau achos mae hi'n swnllyd iawn yno.

**Aled** Beth am esgidiau?

**Carwyn** Dim diolch.

**Aled** Dim esgidiau?!?! Wel beth am sanau?

**Carwyn** Dim diolch.

**Aled** Beth am drowsus?

**Carwyn** Dim diolch.

**Aled** Beth am siwmper [gynnes](#)?

**Carwyn** Dim diolch.

**Aled** Sgarff?

**Carwyn** Dim diolch.

**Aled** Het?

**Carwyn** Het haul - diolch.

**Carwyn** Nawr - y batris a'r camera.

**Aled** Does dim [llawer](#) yn y rysc ac.

**Carwyn** Nac oes!

**Aled** Ble wyt ti'n mynd ar wyliau, Carwyn?

**Aled** lawn ... mae'r car tu allan. Wyt ti'n barod i fynd?


Ble wyt ti'n mynd ar wyliau, Carwyn?

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

**Aled** O, Carwyn, ble wyt ti'n mynd?

**Carwyn** Rhaid i ti aros am y cerdyn post. Hwyl fawr.

**Aled** O, Carwyn! Carwyn!



# Chwaraeon i bawb

16 Mawrth 2017

Annwyl ddarllenwyr,

Mae pawb yn gwybod bod gwneud chwaraeon yn dda i chi.

- Maen nhw'n dda i'r corff.
- Maen nhw'n dda i'r meddwl.
- Maen nhw'n gwneud i chi deimlo'n hapus - llai o strés!
- Mae chwarae mewn tîm yn dysgu sgiliau fel gweithio gyda'ch gilydd.

Rydyn ni eisiau dangos i bawb, "Mae chwaraeon yn bwysig. Dewch i wneud chwaraeon," ond rydyn ni eisiau help. Rydyn ni eisiau syniadau da i helpu pobl - o bob oed - i fwynhau chwaraeon.

Ysgrifennwch aton ni gyda'ch syniadau chi os gwelwch yn dda.

Yn gywir

M. Price


Rheolwr y ganolfan hamdden

Geirfa

darllenwyr      readers

corff      body

meddwl	mind
gyda'ch gilydd	together
dangos	(to) show
pwysig	important
o bob oed	of all ages



# Byw yng Ngwlad Groeg

Mae Becks Fowkes a'r teulu wedi bod yn byw yng [Ngwlad Groeg](#) am 6 mis.

**Beth ydy'ch enw chi?**

Becks Fowkes.

**Ble ydych chi'n byw?**

Yng Nghyffylliog, ger Rhuthun.

**O ble ydych chi'n dod?**

O Lundain.

**Beth ydych chi'n hoffi gwneud?**

Dw i'n mwynhau canu, chwarae'r gitâr, nofio, cerdded, bod tu allan a darllen.

**Pam rydych chi wedi dysgu Cymraeg?**

Ar ôl symud o Lundain i Ogledd Cymru, roedd hi'n [naturiol](#) i ddysgu Cymraeg. Dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau ar ôl dysgu Cymraeg a dw i'n gweithio yn Gymraeg a Saesneg.

**Beth ydy'ch gwaith chi?**

Dw i'n [arweinydd](#) Ysgol Goedwig. Dw i'n gwneud [sesiynau](#) Cymraeg a Saesneg yn y coed a dw i'n mynd i ysgolion Cymraeg a Saesneg i siarad am y goedwig, y [fforestydd glaw](#) a [newid](#) yn yr [hinsawdd](#).

**Pam aethoch chi i fyw yng [Ngwlad Groeg](#)?**

Roeddwn i wedi teithio llawer pan oeddwn i'n [ifanc](#) ac felly roeddwn i eisiau i fy mhlant i deithio nawr.

**Ble oeddech chi'n byw yng [Ngwlad Groeg](#)?**

Ar ynys Karpathos.

**Sut le ydy o?**

Mae Karpathos yn ynys gul a hir rhwng Creta a Rhodos. Mae'n ynys hardd iawn efo llawer o goed olewydd a mynyddoedd ac mae'r môr yn fendigedig.

**Beth oeddech chi'n wneud bob dydd?**

Roedden ni'n nofio, cerdded, darllen a bwyta llawer o fwyd blasus. Weithiau, roedden ni'n mynd i bysgota. Roedden ni'n byw o ddydd i ddydd.

**Sut oedd y tywydd?**

Anhygoel! Roedd hi'n heulog iawn. Hyfryd!

**Beth oeddech chi'n fwyta?**

Llysiau wedi stwffio, pysgod ffres, *Kolokeitho keftedakia* (*courgette croquette*), pasta ffres, octopws, hufen iâ, cacennau cartref, bara ffres.

**Fwynheuoch chi?**

Do, wrth gwrs – a dw i eisiau mynd yn ôl achos dw i'n caru'r môr ac roedd y bobl mor hyfryd!

Geirfa	
Gwlad Groeg	Greece
naturiol	natural
arweinydd	leader

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

sesiynau sessions

fforestydd glaw rain forests

newid change

hinsawdd climate

ifanc young

cul narrow

hir long

olewydd olives

o ddydd i ddydd from day to day

# Dysgu Cymraeg yn Japan

Mae rhai pobl ifanc yn Tokyo, Japan, yn dysgu Cymraeg.

- Maen nhw'n mwynhau dysgu'r iaith.
- Maen nhw'n mwynhau dysgu am [y Ddraig Goch](#) ac am yr eisteddfod.
- Maen nhw'n [defnyddio](#) llyfrau Cymraeg a Japaneg.
- Maen nhw'n gwneud fideos yn Gymraeg – gydag [is-deitlau](#) Cymraeg a Japaneg.

## Pam maen nhw'n dysgu Cymraeg?

Roedd y tiwtor, Takeshi Koike, yn [astudio](#) yng Nghymru. Roedd e'n hoffi'r iaith Gymraeg.

Dwedodd e, "Mae llawer o bobl yn meddwl [bod](#) pawb ym Mhrydain yn siarad Saesneg. Mae'n ddiddorol [bod](#) pobl yn siarad [ieithoedd](#) eraill ym [Mhrydain](#)."

Dechreuodd e ddysgu Cymraeg i'r bobl ifanc yn y [brifysgol](#) yn Tokyo.


Cliciwch [yma](#) i weld rhai o'r bobl ifanc.

**Peidiwch â phoeni os dydych chi ddim yn deall popeth ar y ffilm.**

Geirfa	
y Ddraig Goch	the Red Dragon
defnyddio	(to) use
is-deitlau	subtitles

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

astudio	(to) study
Prydain	Britain
bod	that
ieithoedd	languages
prifysgol	university



## Sŵs – da neu ddrwg?

Rydych chi'n mynd i wrando ar ddu berson yn siarad ond cyn gwrando, dyma ychydig o help i chi.

Geirfa	
cael	can, (to) be allowed to
pris	price
lle	place
creulon	cruel
hela	(to) hunt
rhydd	free
caets	cage

gofalu am (to) care for

prin rare

### Sgript

**Jo:** Edrycha ar y poster yma. "Bargen - dau am un yn y sŵ dydd Sadwrn."

**Ceri:** Pardwn?

**Jo:** "Bargen - dau am un yn y sŵ dydd Sadwrn."

**Ceri:** Dw i ddim yn deall.

**Jo:** Mae **dau** berson yn cael mynd i mewn i'r sŵ am bris **un** person dydd Sadwrn.

**Ceri:** O, dw i'n gweld ... Mae un person yn talu ac mae un person yn mynd i mewn am ddim.

**Jo:** Dyna ni. Beth am fynd, Ceri?

**Ceri:** I ble?

**Jo:** I'r sŵ.

**Ceri:** Dim diolch. Plant **bach** sy'n mynd i'r sŵ.

**Jo:** Na - mae'n lle da i weld anifeiliaid gwahanol.

**Ceri:** Dim diolch. Plant **bach** sy'n mynd i'r sŵ - nid pobl ifanc fel ni.

**Jo:** Wel, dw i'n hoffi gweld jiraffod ... camelod ... eliffantod ... mwnciod  
... teigrod ... llewod ... ac anifeiliaid eraill.

**Ceri:** Ond mae'n **greulon**.

**Jo:** Creulon?!?

**Ceri:** Ydy, mae'n **greulon** iawn.

**Jo:** Sut mae'r sŵ'n greulon?

**Ceri:** Mae cau anifeiliaid mewn sŵ yn greulon. Mae anifeiliaid eisiau bod yn y jyngl ... neu yn Affrica ... neu yn Awstralia. Maen nhw eisiau rhedeg ... a hela ... Maen nhw eisiau bod yn rhydd, ddim byw mewn caets.

**Jo:** Ond mae sŵs yn gwneud gwaith da.

**Ceri:** **Sut** maen nhw'n gwneud gwaith da?

**Jo:** Maen nhw'n gofalu am anifeiliaid prin.

**Ceri:** Anifeiliaid prin?


**Jo:** Anifeiliaid fel y panda neu'r teigr - maen nhw'n brin iawn ond mae sŵs yn gofalu am yr anifeiliaid yma.

**Ceri:** Ydyn, ond ...

**Jo:** Ac mae pobl - plant bach a phobl ifanc yn gallu mynd i weld yr anifeiliaid yma.

**Ceri:** Ydyn, ond dw i ddim eisiau mynd i'r swâ ddydd Sadwrn nesaf, diolch yn fawr.

**Jo:** O!



## Cofiwch eich mwgwd nwy

Os ydych chi'n mynd ar wyliau, beth ydych chi'n pacio yn eich ces?

Os ydych chi'n mynd ar drip, beth ydych chi'n pacio yn eich bag neu yn eich ryscac?



Ydych chi'n pacio [mwgwd nwy](#)?



# RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

Pan mae twristiaid yn mynd i Miyakejima, Japan, maen nhw'n pacio [mwgwd nwy!](#)

## ① Ffeil ffeithiau - Miyakejima

**Beth:** [ynys](#)

**Ble:** 110 milltir i'r de-orllewin o Tokyo

**Beth sy yno:** mynydd Oyama

- Pam mae twristiaid yn mynd yno:**
- i wylio adar
  - i fwynhau'r [ffynhonnau](#) poeth
  - i weld yr [ynys](#)

Mae'n [swnio](#)'n wych OND ...

... [llosgfynydd](#) ydy Mynydd Oyama!

Mynydd Oyama

- [Ffrwydrodd](#) y mynydd yn y flwyddyn 2000.
- Roedd rhaid i'r bobl fynd o'u cartrefi nhw ar yr [ynys](#).
- Aeth 3,600 o bobl i Tokyo i fyw.  
Yna, yn 2005, aeth 2,800 o bobl adre i'r [ynys](#) ond roedd problem!
- Roedd y cartrefi o dan lafa.
- Roedd yr ysgolion o dan lafa.
- Roedd y strydoedd o dan lafa.



# RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

- Roedd y ceir o dan lafa.
- Roedd y fforestydd wedi marw.
- Roedd [nwyon gwenwynig](#) dros rannau o'r [ynys](#).
- Roedd rhaid gwisgo [mwgwd nwy!](#)

Heddiw ...

Heddiw, mae llawer o dwristiaid yn hoffi mynd i'r [ynys](#). Maen nhw eisiau gweld y mynydd, y cartrefi, yr ysgolion, y lafa a'r fforestydd.

Mae [nwyon gwenwynig](#) dros [rannau](#) o'r [ynys](#) ac felly maen nhw'n gwisgo [mwgwd nwy](#). Maen nhw'n cael y [mwgwd nwy](#) ar y fferi ar y ffordd i'r [ynys](#).

Mae'r bobl [leol](#) yn [dangos](#) yr [ynys](#) i'r twristiaid. Maen nhw'n [dangos](#) yr adeiladau a'r lafa a'r fforestydd.

Hoffech chi fynd i Miyakejima?

Geirfa	
cofio	(to) remember
mwgwd nwy	gas mask
ynys	island
llosgfynydd	volcano

## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

ffynhonnau      springs

swnio              (to) sound

ffrwydro          (to) explode

nwyon              gases

gwenwynig        poisonous

rhannau           parts

lleol               local

dangos            (to) show

## Digidol neu analog

Mae'r erthygl nesaf yn sôn am dechnoleg.

Cyn darllen, beth ydy'r geiriau yma yn Saesneg, tybed?

- digidol
- analog
- nofel
- tabled
- ar-lein
- record finyl
- canol oed

## Digidol neu analog?

Beth sy orau?

- Darllen nofel ar dabled neu mewn llyfr papur?
- Gwrando ar gerddoriaeth ar-lein, neu ar record finyl?
- Tynnu llun efo camera digidol neu gamera Polaroid?
- Ysgrifennu nodiadau ar y cyfrifiadur neu ar bapur?
- Chwarae gemau cyfrifiadur neu gemaubwrdd fel Monopoly?
- Cyfarfod ar-lein neu gyfarfod go iawn efo pobl?

Mae technoleg yn bwysig iawn heddiw, ond dydy pawb ddim yn hoffi pethau digidol.

- Mae llawer o bobl yn mwynhau **teimlo** llyfr.
- Maen nhw'n meddwl bod cerddoriaeth ar record finyl yn fwy emosiynol.
- Mae rhai pobl yn mwynhau gweld y llun yn dod allan o'r camera Polaroid.
- Mae rhai pobl yn gallu meddwl yn well pan maen nhw'n ysgrifennu ar bapur.
- Pan maen nhw'n chwarae gemaubwrdd, mae rhai pobl yn hoffi chwarae efo pobl eraill achos maen nhw'n siarad ac yn mwynhau eu cwmni nhw.

# RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

- Mae llawer o bobl yn hoffi siarad â phobl wynеб-yn-wynеб. Maen nhw'n hoffi trafod, cytuno ac anghytuno mewn cyfarfod go iawn.

Pwy sy'n teimlo fel hyn?

Hen bobl?

Pobl ganol oed?

Rhai, wrth gwrs, ond mae llawer o bobl ifanc yn teimlo fel hyn heddiw hefyd!

Geirfa	
gorau	best
tynnu llun	(to) take a photograph
nodiadau	notes
gemau bwrdd	board games
cyfarfod	meeting
go iawn	real, proper
pwysig	important


## RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

gwell better

cwmni company

wyneb-yn-wyneb face-to-face

fel hyn like this



## Luniau

Edrychwrch ar yr eirfa yma'n gyntaf:

Geirfa	
dwyn	(to) steal
lleidr	thief
hances	handkerchief
ces	case
platfform	platform
gorsaf	station
ar ei ben ei hun	by itself
bom	bomb

# RHIFYN 18 – DEFNYDDIO PATRYMAU

ffrwydro	(to) explode
taflu	(to) throw
croen banana	banana skin
ar dâñ	on fire

**Edrychwr ar y sioe sleidiau yma.**

Yna, ewch i Dasg 1.

